Cofnodion Cyfarfod o Bwyllgor Cynllunio a Materion Cyffredinol Cyngor Tref Llandeilo, a gynhaliwyd ar nos Fercher y 12fed o Fedi 2018 yn Neuadd y Sir, Llandeilo am 7.00yh.

Presennol: Y Cyng. Owen James (Cadeirydd), y Cyng. Colin Jenkins, y Cyng. Lesley Prosser, y Cyng. Christopher Parish, y Cyng. Christoph Fischer, y Cyng. Gordon Kilby
Roger Phillips (Clerc Tref)
Desmond Davies (Swyddog Technegol)

Ymddiheuriadau: Y Cyng. Dawn Wallace, y Cyng. Robert Jones

Cof 142 / Medi / 18 Datganiadau o Fuddiant. Dim.

Cof 143 / Medi / 18 Ceisiadau Cynllunio i'w Penderfynu

E/37732 Amrywio amod 2 ar E/34423 (newid bach i'r cynllun mewnol ar y cynlluniau) yn 76, Stryd Rhosmaen.
Sylw: Dim gwrthwynebiad ar yr amod ei fod yn cydymffurfio â'r rheoliadau adeiladu i gyd.

E/37748 Cais Adeilad Rhestredig. Amrywio amod 2 ar E/34424 yn 76, Stryd Rhosmaen.
Sylw: Dim gwrthwynebiad ar yr amod ei fod yn cydymffurfio â'r rheoliadau ar gyfer adeiladau rhestredig.

Cof 144 / Medi / 18 Penderfyniadau am Geisiadau Cynllunio

E/37247/48	6, Stryd y Brenin – **RHODDWYD.**
E/36876	Fflat 58, Stryd Rhosmaen – **RHODDWYD.**
E/37249	127, Stryd Rhosmaen – **RHODDWYD.**
E/36741	Penybryn, 25, Heol Cilgant – **RHODDWYD.**
E/34347/E/27895	1, Stryd Rhosmaen – Heb benderfyniad – wedi'i waredu o'r diwedd.

Cof 145 / Medi / 18 Materion Eraill yn ymwneud â Chynllunio

i) Achos posib o beidio â chydymffurfio â chaniatâd cynllunio E/25766 ym Mharc Dinefwr. **NODWYD.**
ii) Apêl, yn unol â S78, yn erbyn gwrthod cais deiliad yn 10, Heol Caerfyrddin APÊL 1269/E/37124.
iii) Penderfyniad apêl am APÊL 1269/E/37124 – **Apêl wedi'i wrthod.**

Cof 146 / Medi / 18 Adroddiad y Swyddog Technegol

Roedd y Swyddog Technegol wedi cyflwyno adroddiad ymlaen llaw. Roedd wedi ymweld â phob un o'r adeiladau sy'n hongian motiffau goleuadau Nadolig, i geisio caniatâd ar gyfer digwyddiad 2018.

Roedd Mr Davies wedi derbyn dyfynbris o £440 gan Hugh Gwynne, i godi dwy ffens tu ôl i'r cwrt tennis, o gymharu â £320 am godi un ffens. Cynigodd y Cyng. Colin Jenkins bod y mater yn cael ei atgyfeirio at yr Is-grŵp Trosglwyddo Asedau, ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Christopher Parish. Roedd pawb o blaid.
Fe wnaeth y Cyng. Lesley Prosser grybwyll yr ohebiaeth a dderbyniwyd oddi wrth Mr Mitchell, ynghylch cyflwr baneri'r Dref. Cytunwyd byddai'r Clerc yn anfon ateb i Mr Mitchell. Byddai'r drafodaeth ar addurno'r Dref gyda baneri'n cael ei chynnal rhywbryd eto.
Dywedodd Mr Davies bod angen ail-beintio'r meinciau ar y Cilgant. Cynigodd y Cyng. Colin Jenkins y dylid ystyried y mater yn y Gwanwyn. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Owen James. Roedd pawb o blaid.

Cof 147 / Medi / 18 Materion yn ymwneud â Thrafnidiaeth a Phriffyrdd

1. Cau ffordd yr A483 yng nghylchfan Ffairfach, bob dydd Sul, gan gychwyn ar y 9fed o Fedi, am sawl penwythnos.

Cof 148 / Medi /18 Gohebiaeth

1. Gohebiaeth yr Ymddiriedolaeth Ddinesig gyda CSG, ynghylch cyflwr gwael llwybr troed 69/1. Dywedodd y Swyddog Hawliau Tramwy y byddai'r gwaith yn cael ei wneud yn ystod y 6 mis nesaf.

Cof 149 / Medi / 18 Doedd dim eitemau arall o fusnes yr oedd y Cadeirydd, oherwydd amgylchiadau arbennig, yn penderfynu eu hystyried fel mater o frys, yn unol ag Adran 100B(4)(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.52yh.